

TGAU



TGAU CBAC ADDYSG GORFFFOROL

CYMERADWYWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

MANYLEB

Addysgu o 2016
I'w ddyfarnu o 2018

Fersiwn 2 Ionawr 2019



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

CRYNODEB O NEWIDIADAU

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen
2	Newidiwyd yr adran 'Cofrestru' i egluro rheolau ailsefyll a throsglwyddo marciau'r Asesu Di-arholiad.	23



TGAU CBAC ADDYSG GORFFOROL

I'w addysgu o 2016
I'w ddyfarnu o 2018

Mae'r fanyleb hon yn bodloni'r Egwyddorion Cymwysterau TGAU sy'n pennu gofynion yr holl fanylebau TGAU newydd neu ddiwygiedig a ddatblygwyd i'w haddysgu yng Nghymru o fis Medi 2016.

	Tudalen
Crynodeb o'r asesu	2
1. Rhagarweiniad	3
1.1 Nodau ac amcanion	3
1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant	4
1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg	4
1.4 Bagloriaeth Cymru	5
1.5 Persbectif Cymreig	5
2. Cynnwys y pwnc	6
2.1 Uned 1: Cyflwyniad i addysg gorfforol	6
2.2 Uned 2: Y cyfranogwr gweithredol mewn addysg gorfforol	14
3. Asesu	16
3.1 Amcanion asesu a phwysoli	16
3.2 Trefniadau ar gyfer asesu di-arholiad	17
4. Gwybodaeth dechnegol	23
4.1 Cofrestru	23
4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl	23
Atodiadau	24
A: Gridiau asesu di-arholiad	24
B: Rhestr gweithgareddau TGAU Addysg Gorfforol	32
C: Sgiliau perfformio	34

TGAU ADDYSG GORFFOROL (Cymru)

CRYNODEB O'R ASESU

Uned 1: Cyflwyniad i addysg gorfforol

Arholiad ysgrifenedig: 2 awr

50% o'r cymhwyster

100 marc

Asesir dysgwyr drwy amrywiaeth o gwestiynau byr ac estynedig. Bydd y cwestiynau yn seiliedig ar ysgogiadau clyweled a ffynonellau eraill.

Uned 2: Y cyfranogwr gweithredol mewn addysg gorfforol

Asesu di-arholiad

50% o'r cymhwyster

100 marc

Asesir dysgwyr mewn **tri** gweithgaredd gwahanol yn rôl perfformiwr mewn o leiaf **un** gamp ar gyfer unigolyn, **un** gamp ar gyfer tîm ac **un** arall.

Bydd un gweithgaredd yn brif weithgaredd fydd â rhaglen ffitrwydd bersonol yn gysylltiedig â'r gweithgaredd.

Bydd y cymhwyster llinol hwn ar gael ym mis Mai/Mehefin bob blwyddyn. Bydd yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2018.

Rhif Cymhwyster ar restr [The Register](#): 601/8148/5

Rhif Cymeradwyo Cymwysterau Cymru ar restr [QiW](#): C00/0779/7

TGAU ADDYSG GORFFOROL

1 RHAGARWEINIAD

1.1 Nodau ac amcanion

Bydd y fanyleb TGAU CBAC Addysg Gorfforol hon yn galluogi dysgwyr i ymwneud â chwrs ymarferol, sydd wedi'i gynllunio i annog dysgwyr i gael eu hysbrydoli, eu cymell a'u herio gan y pwnc ac i'w galluogi nhw i wneud penderfyniadau gwybodus am gyfleoedd dysgu pellach a llwybrau gyrfa.

Drwy astudio TGAU Addysg Gorfforol bydd dysgwyr yn caffael y wybodaeth, y ddealltwriaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd i ddatblygu a chynnal eu perfformiad mewn gweithgareddau corfforol a deall y manteision i iechyd, ffitrwydd a lles. Bydd dysgwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ddamcaniaethol o'r ffactorau sy'n greiddiol i weithgaredd corfforol a chwaraeon ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i wella perfformiad.

Bydd dysgwyr yn perfformio'n effeithiol mewn gweithgareddau corfforol gwahanol drwy ddatblygu sgiliau a thechnegau a dewis a defnyddio tactegau, strategaethau a/neu syniadau cyfansoddiadol. Byddan nhw'n datblygu eu gallu i ddadansoddi a gwerthuso i wella perfformiad mewn gweithgaredd corfforol a chwaraeon. Drwy astudio TGAU Addysg Gorfforol bydd dysgwyr yn:

- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ddamcaniaethol o'r ffactorau sy'n greiddiol i weithgaredd corfforol a chwaraeon ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i wella perfformiad
- deall sut mae'r cyflwr ffisiolegol a seicolegol yn effeithio ar berfformiad mewn gweithgaredd corfforol a chwaraeon
- perfformio'n effeithiol mewn gweithgareddau corfforol gwahanol drwy ddatblygu sgiliau a thechnegau a dewis a defnyddio tactegau, strategaethau a/neu syniadau cyfansoddiadol
- datblygu eu gallu i ddadansoddi a gwerthuso i wella perfformiad mewn gweithgaredd corfforol a chwaraeon
- deall y cyfraniad mae gweithgaredd corfforol a chwaraeon yn ei wneud i iechyd, ffitrwydd a lles
- deall dylanwadau diwylliannol gymdeithasol allweddol sy'n gallu effeithio ar gysylltiad pobl â gweithgaredd corfforol a chwaraeon yng Nghymru a'r byd ehangach.

Mae'r fanyleb hon wedi'i llunio i ganiatáu i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o addysg gorfforol mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau. Mae'r fanyleb wedi'i chynllunio i integreiddio theori ac arfer gyda'r pwyslais ar gymhwyso gwybodaeth ddamcaniaethol. Mae'r fanyleb yn defnyddio ysgogiadau clyweled ac astudiaethau achos i gysylltu theori ag arfer.

Mae manyleb TGAU Addysg Gorfforol CBAC yn darparu arweiniad clir ynghylch y sgiliau perfformio sydd i'w hasesu (Atodiad C) ac ynghylch marcio asesu di-arholiad (Atodiad A).

1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Nid oes gofynion dysgu blaenorol ar gyfer y fanyleb hon. Yr ysgol/coleg sydd i benderfynu ar unrhyw ofynion sy'n cael eu gosod o ran cael mynediad i gwrs sy'n seiliedig ar y fanyleb hon.

Mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar gynnwys pwnc a addysgir yn nodweddiadol ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 ac mae'n gweithredu fel sail addas ar gyfer astudio addysg gorfforol naill ai ar lefel UG neu Safon Uwch. Yn ogystal, mae'r fanyleb yn darparu cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i ryw a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn.

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y nodweddion penodol wedi'u hamddiffyn yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r fanyleb hon wedi'i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau ystod amrywiol o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr penodol fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd (e.e. caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio Dehonglydd Iaith Arwyddion, gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain). Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk). Gan fod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr sy'n cael eu hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesu.

1.4 Bagloriaeth Cymru

Dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddatblygu'r sgiliau sy'n cael eu hasesu drwy Graidd Bagloriaeth Cymru:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Ddigidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigedd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol.

1.5 Persbectif Cymreig

Wrth ddilyn y fanyleb hon, dylai dysgwyr gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ystyried persbectif Cymreig os bydd cyfle i wneud hynny'n deillio'n naturiol o'r deunydd pwnc ac os byddai cynnwys y cyfleoedd hynny'n cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u cwpas fel dinasyddion o Gymru yn ogystal â'r DU, Ewrop a'r Byd.

2 CYNNWYS Y PWNC

Mae cynnwys y pwnc yn canolbwyntio ar bum maes allweddol:

1. Iechyd, ymarfer (*training*) ac ymarfer corff (*exercise*)
2. Ffisioleg ymarfer corff (*exercise*)
3. Dadansoddi symud
4. Seicoleg chwaraeon a gweithgaredd corfforol
5. Materion diwylliannol gymdeithasol mewn chwaraeon a gweithgaredd corfforol.

Mae holl gynnwys y pwnc yn cael ei asesu yn Uned 1 fel rhan o'r arholiad ysgrifenedig ac yn Uned 2 fel rhan o'r rhaglen ffitrwydd bersonol.

Mae Unedau 1 a 2 yn gofyn bod dysgwyr yn arddangos dealltwriaeth o sut mae data ansoddol a meintiol yn cael eu casglu. Hefyd mae'n ofynnol bod dysgwyr yn dadansoddi a gwerthuso data. Yn Uned 2 rhaid i ddysgwyr gyflwyno data, gan gynnwys tablau a graffiau, fel rhan o'r rhaglen ffitrwydd bersonol.

2.1 Uned 1

Cyflwyniad i addysg gorfforol

Arholiad ysgrifenedig: 2 awr

50% o'r cymhwyster

100 marc

Asesir dysgwyr drwy amrywiaeth o gwestiynau byr ac estynedig. Bydd y cwestiynau yn seiliedig ar ysgogiadau clyweled a ffynonellau eraill.

1. Iechyd, ymarfer (*training*) ac ymarfer corff (*exercise*)

Cynnwys	Helaethu
Iechyd, ffitrwydd a lles	Diffinio a gwybod am y berthynas rhwng iechyd, ffitrwydd a lles.
Cyfraniad gweithgaredd corfforol at iechyd a ffitrwydd	Pwysigrwydd ymarfer corff (<i>exercise</i>). Buddiannau ffordd fywiog, iach o fyw. Dewisiadau ffordd o fyw ac ymlyniad, cysylltiadau â chymhelliant. Y manteision iechyd o wneud ymarfer corff (<i>exercising</i>) gan gynnwys manteision lles corfforol, cymdeithasol a meddyliol. Y berthynas rhwng iechyd corfforol, cymdeithasol a meddyliol.
Canlyniadau ffordd eisteddog o fyw	Risgiau peidio ag ymarfer gan gynnwys straen, gorbwysedd, gordewdra, artherosclerosis, hunan-barch gwael, delwedd y corff a hunanhyder yn wael.
Deiet a maeth	Hafaliad cydbwysedd egni: positif, negatif, cytbwys. Swyddogaethau maetholion; protein ar gyfer twf/atgyweirio meinweoedd, carbohydrad ar gyfer egni, brasterau ar gyfer egni/ynysiad, mwynau ar gyfer twf esgryn, dŵr ar gyfer hydradiad. Pwysigrwydd maeth ar gyfer iechyd yn gyffredinol a'i swyddogaethau mewn mathau gwahanol o weithgareddau corfforol.
Cydrannau ffitrwydd	Cysylltiadau cydrannau ffitrwydd â champau/ gweithgareddau penodol. Datblygu ffitrwydd ar gyfer ffordd o fyw a/neu berfformiad. Dygnwch cardiofasgwlar, dygnwch cyhyrol, cryfder cyhyrol, hyblygrwydd, cyfansoddiad y corff, ystwythder, cyflymder, pŵer, cydsymud, cydbwysedd, amser adweithio.
Mesur iechyd a ffitrwydd	Pwysigrwydd mesur ffitrwydd ac iechyd gan gynnwys nodi cryfderau a gwendidau, gwaelodlin, cyflwr cyfredol, gwelliant, cymariaethau, cymhelliant. Sut y mesurir iechyd a ffitrwydd gan gynnwys y prawf ffitrwydd aml-gam/rhediad 12 munud Cooper, prawf cyrliad abdomenol/byrfreichiau, gafaeliad llaw/macsimwm cyflawni unwaith, eistedd ac ymestyn/gorestyn, caliper plygiad y croen/dwysedd corff, rhediad ystwythder Illinois, sbrint 30/50m, naid fertigol, cydbwysedd storc, taflu â'r naill law a'r llall am yn ail, prawf gollwng pren mesur neu brofion priodol eraill. Dylai profion gael eu cysylltu â'r gydran briodol o ffitrwydd. Mae offer mesur eraill yn cynnwys holiaduron iechyd a dulliau sgrinio fel monitro pwysedd gwaed, cyfradd curiad y galon, mewnbwn ac allbwn caloriau. Pwysigrwydd protocolau, cysyniadau dibynadwyedd a dilysrwydd wrth fesur iechyd a ffitrwydd.

Cynnwys	Helaethu
Dulliau ymarfer (<i>training</i>)	Gwahanol ddulliau ymarfer gan gynnwys di-dor, ysbeidiol (gan gynnwys <i>fartlek</i>), ymarfer ar gylchffordd, ymarfer codi pwysau a phlyometreg. Datblygu technegau cywir. Addasrwydd gwahanol ddulliau ymarfer yn dibynnu ar anghenion yr unigolyn a'r gweithgaredd. Datblygu a gwella iechyd a pherfformiad drwy ddulliau priodol o ymarfer.
Cylchfaoedd ymarfer	Cylchfaoedd ymarfer a'r cysylltiad â chyfradd curiad y galon, ymarfer corff (<i>exercise</i>), ffitrwydd, systemau egni ac iechyd. Dwysedd a hyd ymarfer yn dibynnu ar anghenion unigol.
Egwyddorion ymarfer (<i>training</i>) ac ymarfer corff (<i>exercising</i>)	Penodoldeb, dilyniant, gorlwytho (dwysedd, amllder, hyd), amrywiant. Bydd angen i ddysgwyr gymhwyso egwyddorion ymarfer at wella iechyd ar gyfer unigolion eisteddog a ffitrwydd ar gyfer mabolgampwyr.
Cynhesu a thawelu	Pam mae perfformwyr yn cynhesu. Rhesymau corfforol a seicolegol i gynnwys cynyddu tymheredd y corff, cynyddu elastigedd cyhyrau a faint o symud, lleihau'r risg o anaf, bod "yn y gylchfa", gwella ffocws a chymhelliant. Pam mae perfformwyr yn thawelu i gynnwys cael gwared â chynnyrch gwastraff, cyflymu ymadfer, atal dadhydradiad a cholli halwynau. Sut mae perfformwyr yn cynhesu gan gynnwys cynyddu dwysedd i godi cyfradd curiad y galon, ymestyn gweithredol/goddefol/dynamig, ymestyn hwyluso niwrogyhyrol priodderbynnol (<i>PNF</i>) a sicrhau penodoldeb i'r gêm. Sut mae perfformwyr yn thawelu gan gynnwys lleihau cyfradd curiad y galon a dwysedd, ymadfer gweithredol, baddonau iâ, tyllino'r corff ac ymestyn.
Dadansoddi data	Casglu, dadansoddi a chyflwyno data priodol ar gyfer unrhyw ran o'r cynnwys o ran iechyd, ymarfer (<i>training</i>) ac ymarfer corff (<i>exercise</i>).

2. Ffisioleg ymarfer corff (*exercise*)

Cynnwys	Helaethu
System gyhyrol-sgerbydol	Adeiledd a swyddogaeth y system gyhyrol-sgerbydol. Adeiledd y system sgerbydol gan gynnwys pelen a chrau, colfach a cholynnog (cymalau synofaidd); prif esgym gan gynnwys radiws, wlna, hwmerws, asgwrn y forddwyd, tibia, ffibwla. Swyddogaethau'r system sgerbydol: symud, cynnal, amddiffyn a chynhyrchu celloedd y gwaed gan gynnwys plygu, estyn, adsymud, allsymud, cylchsymud, cylchdroi. Adeiledd y system gyhyrol – mathau o gyhyrau: llyfn, cardiaidd, sgerbydol, anrheoledig a rheoledig. Enwau prif gyhyrau fel deuben, triphen, deltoid, pectoral, latissimus dorsi, ffolen, cwadriiceps, llinyn y gar, croth y goes. Cysylltiadau'r prif gyhyrau â mathau o symudiad yn y gwahanol gymalau gan gynnwys plygu, estyn, adsymud, allsymud, cylchsymud, cylchdroi. Mathau o ffibrau cyhyrol: araf/cyflym math I, math II. Nodweddion a'u defnydd mewn amrywiaeth o gampau ac ymarfer aerobig ac anaerobig. Swyddogaeth gewynnau a thendonau.
System gardioresbiradol a fasgwlwr	Adeiledd a swyddogaeth y systemau gardioresbiradol a fasgwlwr. Adeiledd y system gardio gan gynnwys labelu'r galon: atria, fentriglau, systemau cylchrediad ysgyfeiniol a chylchrediad systemig. Swyddogaethau gan gynnwys cludo maetholion, ocsigen a chynnyrch gwastraff, thermoreoli, fasoymlediad, fasogyfyngiad. Gwerthoedd cardiaidd wrth orffwys ac yn ystod ymarfer corff (<i>exercising</i>); allbwn y galon, cyfradd curiad y galon, cyfaint strôc, pwysedd gwaed: systolig, diastolig, gwerthoedd wrth orffwys ac yn ystod ymarfer. Adeiledd y system resbiradol gan gynnwys tracea, broncws, bronciolynnau, alfeoli, llengig. Swyddogaethau gan gynnwys cyfnewid nwyon, trylediad, haemoglobin, ocsigeniad gwaed. Symud: cyfeintiau ysgyfaint gan gynnwys cyfaint anadlol, awyru y munud, amllder anadlu (cyfradd), cyfaint cyfnewid, gwerthoedd wrth orffwys ac yn ystod ymarfer. Trosolwg o ymarfer aerobig ac anaerobig: creatin ffosffad, asid lactig, nodweddion aerobig, dyled ocsigen, trothwy anaerobig.

3. Dadansoddi symud

Cynnwys	Helaethu
Cyfangiadau cyhyrol	Cyfangiadau isotonig gan gynnwys cyfangiadau ecsentrig, consentrig – cyfangiadau isometrig.
System liferi	Gweithrediad cyhyrau gwrthweithiol – tynhäwr (prif symudwr), gwrthweithydd.
Planau ac echelinau symud	Dosbarthiad liferi, gan ganolbwyntio ar y cymalau a system liferi yn yr ysgwydd, y penelin, y pen-glin a'r glun. Manteision mecanyddol dosbarthiadau gwahanol o liferi.
Technoleg chwaraeon	Planau saethol, talcennol, ffwlcrwm, llwyth ac ymdrech a thraws - plygu, estyn, adsymud ac allsymud. Echelinau symud: saethol, blaen a fertigol a'r symudiadau sy'n digwydd drwy'r echelinau hyn. Symudiadau yn y cymalau yn ystod gweithredoedd rhedeg, taflu, neidio a chicio.
Dadansoddi data	Rôl technoleg mewn dadansoddi symud, gwella perfformiad yn ogystal â'i rôl mewn dyfarnu a hyfforddi. Effeithiau cadarnhaol a negyddol datblygiadau technolegol. Y berthynas rhwng gweithgareddau ym myd chwaraeon a dadansoddi symud. Sut i ddefnyddio technoleg i ddadansoddi symud a pherfformiad ym myd chwaraeon i wella perfformiad.
	Casglu, dadansoddi a chyflwyno data priodol ar gyfer unrhyw ran o'r cynnwys o ran dadansoddi symud.

4. Seicoleg chwaraeon a gweithgaredd corfforol

Cynnwys	Helaethu
Gosod nodau	Sut mae gosod nodau yn gallu effeithio ar iechyd, lles a pherfformiad gan gynnwys canolbwyntio sylw, gwella ymdrech, canolbwyntio a helpu i ddatblygu strategaethau ar gyfer llwyddiant. Targedau <i>SMART</i> i gefnogi gosod nodau: targedau penodol, mesuradwy, cytunedig, realistig a chyfnodol. Mae'r targedau hyn yn gysylltiedig â gweithgareddau penodol.
Prosesu gwybodaeth	Model prosesu gwybodaeth gan gynnwys mewnbwn, penderfynu, allbwn ac adborth. Swyddogaeth adborth gan gynnwys gwybodaeth am y canlyniadau a gwybodaeth am y perfformiad.
Cyfarwyddyd	Y mathau o gyfarwyddyd gan gynnwys geiriol, gweledol, llaw, mecanyddol. Y berthynas rhwng mathau o gyfarwyddyd a chyfnodau dysgu - gwybyddol, cysylltiadol, ymreolaethol.
Paratoi meddyliol	Sut mae paratoi meddyliol yn gallu helpu gyda chymhelliant ac yn gallu gwella perfformiad drwy ddelweddaeth/dychmygu/ymarfer meddyliol.
Cymhelliant	Mathau o gymhelliant gan gynnwys cynhenid ac allanol a'u cysylltiadau ag ymlyniad a llwyddiant ym myd chwaraeon.
Nodweddion perfformiad medrus	Nodweddion perfformiad medrus: techneg, cysondeb, cywirdeb, effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, hyder, rheolaeth ac estheteg.
Dosbarthu sgiliau	Dosbarthu gweithgareddau ar hyd continwwm gan gynnwys sylfaenol/cymhleth, agored/caeedig a hunanreoledd/arallreoledd. Gwneud cysylltiadau rhwng dosbarthu sgil a math o ymarfer (<i>practice</i>).
Mathau o ymarfer (<i>practice</i>)	Y cysylltiadau rhwng ymarfer, y dysgwr a'r math o sgil – ymarfer y cyfan/rhannau, ymarfer sefydlog/amrywiol. Y berthynas rhwng cysyniadau a damcaniaethau gwahanol ym maes seicoleg chwaraeon a sut gallan nhw gyfrannu at wella perfformiad.
Dadansoddi data	Casglu, dadansoddi a chyflwyno data priodol ar gyfer unrhyw ran o'r cynnwys o ran seicoleg chwaraeon a gweithgaredd corfforol.

5. Materion diwylliannol gymdeithasol mewn chwaraeon a gweithgaredd corfforol

Cynnwys	Helaethu
Cyfranogiad	Y ffactorau sy'n cyfrannu at gyfranogiad, darpariaeth a pherfformiad mewn chwaraeon ac ymarfer corff (<i>exercise</i>). Profiadau personol sy'n effeithio ar gyfranogiad. Bydd ffactorau sy'n effeithio ar gyfranogiad yn canolbwyntio ar y teulu, rhywedd, y gymdeithas, cyfoedion, cost, mynediad, modelau rôl. Dylanwad rhaglen addysg gorfforol yr ysgol, allgyrsiol a'r cwricwlwm ehangach. Llythrennedd corfforol, gweithgaredd corfforol, iechyd a lles ac effeithiau ar ddatblygiad plant.
Strategaethau ar gyfer gwella cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgaredd corfforol	Polisïau diwygiadol fel ymgyrchoedd gwrth-hiliaeth e.e. Kick It Out, chwaraeon wedi'u haddasu ar gyfer yr anabl.
Darpariaeth	Darpariaeth ar gyfer amrywiaeth o grwpiau targed i gynnwys: rhywedd, hil, anabledd. Strategaethau ar gyfer cynyddu ymwneud ar gyfer y grwpiau hyn.
Perfformiad	Masnacheiddio chwaraeon gan gynnwys rôl y cyfryngau, hysbysebu a globaleiddio chwaraeon. Materion moesegol, gan gynnwys trechafwriaeth, sbortsmonaeth, materion ariannol, gwyredd e.e. cymryd cyffuriau i wella perfformiad. Y cysylltiadau rhwng y cyfryngau a masnacheiddiwrch.
Dadansoddi data	Casglu, dadansoddi a chyflwyno data priodol ar gyfer unrhyw ran o'r cynnwys o ran materion diwylliannol gymdeithasol mewn chwaraeon a gweithgaredd corfforol.

2.2 Uned 2

Y cyfranogwr gweithredol mewn addysg gorfforol

Asesu di-arholiad

50% o'r cymhwyster

100 marc

Asesir dysgwyr yn y canlynol:

- **tri** gweithgaredd gwahanol yn rôl perfformiwr
- o leiaf **un** gamp ar gyfer unigolyn ac **un** gamp ar gyfer tîm ac **un** arall o'r rhestri cymeradwy o weithgareddau yn Atodiad B
- rhaglen ffitrwydd bersonol yn gysylltiedig â'r **prif** weithgaredd dewisol.

Mae'r gridiau asesu ar gyfer y perfformiad ymarferol a'r gwerthusiad i'w gweld yn Atodiad A.

Mae'r sgiliau perfformio a'r helaethu ar gyfer y gweithgareddau ymarferol yn cael eu nodi yn y tabl isod.

Sgiliau perfformio ymarferol

Sgiliau perfformio	Helaethu
Mewn gweithgareddau unigolyn a thîm, dylai dysgwyr arddangos: Sgiliau a thechnegau Sgiliau penderfynu Datrysiadau datrys problemau Nodweddion corfforol priodol	Dylai dysgwyr allu: Cymhwyso'r sgiliau a'r technegau priodol at y gweithgaredd mewn sefyllfaoedd heriol fel gemau llawn. Cymhwyso penderfynu priodol a strategaethau priodol mewn sefyllfaoedd heriol fel gemau. Cymhwyso syniadau cyfansoddiadol mewn sefyllfaoedd perfformio mewn gweithgareddau creadigol fel dawns a gymnasteg. Datrys problemau mewn ffyrdd gosodedig a ffyrdd digymell tra dan bwysau mewn gweithgaredd corfforol a chwaraeon. Cymhwyso nodweddion corfforol sy'n briodol i'r gweithgaredd dewisol.
Mewn gweithgareddau tîm, dylai dysgwyr hefyd arddangos: Eu cyfranogiad fel aelod gweithredol o'r tîm	Dylai dysgwyr allu: Cymhwyso strategaethau tîm. Dylen nhw ystyried cryfderau a gwendidau aelodau eraill o'r tîm. Dangos ymwybyddiaeth o weithredoedd perfformwyr eraill ac ymateb yn briodol tra hefyd yn dangos eu rôl unigol mewn cyflawni'r nodau cyfunol. Cyfathrebu'n effeithiol â pherfformwyr eraill.

Rhaglen ffitrwydd bersonol

Rhaid i ddysgwyr gynllunio rhaglen ffitrwydd bersonol fydd yn helpu i wella ffitrwydd a pherfformiad yn **un** o'r gweithgareddau ymarferol y cawson nhw eu hasesu ynddyn nhw h.y. y **prif** weithgaredd.

Ni fydd dysgwyr yn cael eu hasesu ar y mater a yw gwelliannau wedi digwydd neu beidio.

Argymhellir bod y rhaglen â hyd o 8 wythnos o leiaf.

Gall y dystiolaeth ysgrifenedig gael ei chyflwyno'n electronig neu fel fersiwn papur a rhaid iddi gynnwys dystiolaeth o'r canlynol:

1. Hunanwerthusiad o'r lefel ffitrwydd gyfredol
2. Argymhellion i wella ffitrwydd a pherfformiad yn y **prif** weithgaredd
3. Cynllun o'r rhaglen ffitrwydd
4. Cwblhau a monitro'r rhaglen
5. Gwerthuso'r rhaglen
6. Argymhellion ar gyfer gwelliannau i berfformiad personol yn y **prif** weithgaredd.

Asesir y rhaglen ffitrwydd bersonol fel rhan o'r **prif** weithgaredd. Mae'r grid asesu i'w weld yn Atodiad A.

Dylai athrawon sicrhau bod y rhaglen ffitrwydd bersonol yn galluogi dysgwyr i ddefnyddio theori briodol ac i gasglu, dadansoddi a chyflwyno data. Asesir y defnydd o theori a data fel rhan o'r rhaglen ffitrwydd bersonol yn y **prif** weithgaredd.

3 ASESU

3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae'r amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u rhoi isod. Rhaid i ddysgwyr:

AA1

Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n greiddiol i berfformiad ac ymwneud â gweithgaredd corfforol a chwaraeon

AA2

Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n greiddiol i berfformiad ac ymwneud â gweithgaredd corfforol a chwaraeon

AA3

Dadansoddi a gwerthuso'r ffactorau sy'n greiddiol i berfformiad ac ymwneud â gweithgaredd corfforol a chwaraeon

AA4

- Arddangos a chymhwyso sgiliau a thechnegau perthnasol mewn gweithgaredd corfforol a chwaraeon
- Dadansoddi a gwerthuso perfformiad

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoli pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac ar gyfer y cymhwyster cyfan.

	AA1	AA2	AA3	AA4	Cyfanswm
Uned 1	20%	15%	15%	-	50%
Uned 2	-	5%	-	45%	50%
Pwysoli cyffredinol	20%	20%	15%	45%	100%

Ar gyfer pob cyfres, bydd ysgrifennu'n gywir yn cael ei asesu fel a ganlyn:

- mewn cwestiynau penodedig yn yr arholiad ysgrifenedig lle gofynnir am ysgrifennu estynedig
- y Rhaglen Ffitrwydd Bersonol

Mae ysgrifennu'n gywir yn ystyried defnydd yr ymgeisydd o iaith arbenigol. Mae hefyd yn ystyried cywirdeb sillafu, atalnodi a gramadeg yr ymgeisydd.

3.2 Trefniadau ar gyfer asesu di-arholiad

Bydd Uned 2 yn cael ei marcio allan o 100 ac mae'n werth 50% o'r cymhwyster.

Crynodeb o Uned 2

Asesiad	Marciau	Pwysoli	Amcan asesu
Un prif weithgaredd i gynnwys y rhaglen ffitrwydd bersonol	44	22%	AA4 ac AA2
Dau weithgaredd llai	56	28%	AA4

Rhaid i un o'r gweithgareddau uchod fod yn weithgaredd ar gyfer tîm ac un yn weithgaredd ar gyfer unigolyn o'r rhestr gymeradwy o weithgareddau.

Rhaid i'r rhaglen ffitrwydd bersonol gael ei chysylltu'n uniongyrchol â'r prif weithgaredd.

1. Asesu perfformiad ymarferol

Rhaid i ymgeiswyr gael eu hasesu mewn gweithgareddau yn Atodiad B sydd wedi cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Gellir asesu ymgeiswyr yn ysbeidiol drwy gydol y cwrs. Dylai'r marciau terfynol a gyflwynir fod yn adlewyrchiad cywir o lefel arferol yr ymgeisydd o berfformiad.

Ar gyfer y campau/gweithgareddau tîm dylai ymgeiswyr: arddangos cymhwyso sgiliau/technegau/strategaethau sy'n briodol i'r safle/gweithgaredd mewn sefyllfaoedd heriol h.y. mewn gemau ag ochrau llai ac ochrau llawn mewn cyd-destunau cystadleuol.

Ar gyfer campau/gweithgareddau unigolyn dylai ymgeiswyr: arddangos cymhwyso sgiliau/technegau/strategaethau sy'n briodol i'r gweithgaredd mewn sefyllfaoedd heriol lle maen nhw dan bwysau.

Rhaid i'r perfformiadau gael eu hasesu'n fewnol gan yr athro gan ddefnyddio'r gridiau asesu yn Atodiad A. Safonir y perfformiadau yn allanol gan safonwr sy'n ymweld. Gall ymgeiswyr gynnig gweithgareddau i ffwrdd o'r safle i'w hasesu. Gweithgareddau i ffwrdd o'r safle yw'r rhai nad ydynt yn digwydd yng nghampws yr ysgol/ coleg a lle byddai'n anodd safoni'n "fyw" ddiwrnod y safoni allanol. Rhaid i dystiolaeth DVD/ddigidol briodol fod ar gael ar gyfer perfformiad pob gweithgaredd i ffwrdd o'r safle. Rhaid i athrawon asesu pob gweithgaredd a llofnodi'r taflenni marciau.

Sylwch, rhaid i bob canolfan wneud recordiad clyweled o bob perfformiad a welir ddiwrnod y safoni allanol. Dylid gwneud hyn er mwyn iddyn nhw allu adolygu canlyniad y safoni a chael mynediad at y gwasanaeth ymholiadau am ganlyniadau.

Ar ôl y safoni allanol, dylid anfon y recordiad clyweled i CBAC o fewn un wythnos i'r ymweliad safoni. Bydd CBAC yn ei gadw am ddigon o amser i ganiatáu ar gyfer cwblhau ymholiadau perthnasol ynglŷn â chanlyniadau ac apeliadau.

Addasiadau rhesymol

Rhaid cytuno ar unrhyw drefniadau mynediad penodol cyn cynnal unrhyw waith asesu. Bwriad trefniadau mynediad yw caniatáu asesu dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig, anabledau neu anafiadau dros dro.

Lle byddai ymgeisydd anabl dan anfantais sylweddol fel arall o gymharu ag unigolyn nad yw'n anabl, bydd CBAC yn gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer yr ymgeisydd hwnnw. Mae darparu trefniadau mynediad yn ffordd o ganiatáu addasiadau rhesymol. Fodd bynnag er bod anghenion y dysgwr yn un o'r prif bryderon ynghlwm â threfniadau mynediad addas, mae'n rhaid hefyd gwneud yn siŵr nad oes cyfaddawdu ar gywirdeb yr asesiad.

Dylai canolfannau ddefnyddio'r *Trefniadau Mynediad Ar-lein* yn y lle cyntaf i gyflwyno ceisiadau am addasiadau rhesymol. Dylid cysylltu â CBAC cyn gynted â phosibl ynglŷn ag anafiadau. Bydd y dysgwyr yn gwybod cyn gynted â phosibl felly pa drefniadau mynediad sydd ar waith.

O gael awdurdodi unrhyw addasiad rhesymol, bydd yr addasiad hwnnw'n weithredol ar gyfer yr asesiad mewnol gan yr athrawon ac ar ddiwrnod y safoni. Hysbysir y safonwr ymweld am unrhyw addasiadau cyn ei ymweliad a bydd yn cydymffurfio â'r trefniadau hynny sydd yn eu lle.

Noder os gwelwch yn dda mai dim ond os yw'r addasiad yn un *rhesymol* y caiff ei wneud e.e. ddim yn effeithio ar gywirdeb yr asesiad, ddim yn golygu bod CBAC yn mynd i gostau afresymol nac yn cael effaith afresymol ar ddysgwyr eraill.

Mae manylion llawn i'w cael yn nogfen rheoliadau ac arweiniad y CGC ar Drefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol

<http://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration/regulations-and-guidance> .

Mae'r ddogfen hon yn cael ei diweddarau bob blwyddyn.

Recordio perfformiadau ymarferol

Dylid dilyn yr arweiniad canlynol bob tro y mae angen tystiolaeth wedi'i recordio. Mae'n berthnasol hefyd yn achos tystiolaeth o weithgareddau i ffwrdd o'r safle a gafodd eu ffilmio cyn diwrnod y safoni a'r holl weithgareddau a recordiwyd yn ystod ymweliad y safonwr.

Mae'n hanfodol cadw at bob un o'r gweithdrefnau canlynol er mwyn sicrhau bod tystiolaeth addas i'w hasesu:

- Dylid cyflwyno pob ymgeisydd ar ddechrau pob perfformiad. Mae angen i'r ymgeisydd roi ei enw, ei rif ymgeisydd ac os yn briodol sut y byddan nhw'n cael eu hadnabod yn ystod y perfformiad e.e. glas 4 mewn gêm tîm
- Dylid defnyddio fformat hawdd ei gyrchu fel DVD ar gyfer y dystiolaeth. Bydd yn hawdd i'r safonwr edrych ar y recordiad felly a gall CBAC ei ddefnyddio at ddibenion safoni/cymedroli
- Dylai'r sawl sy'n recordio fod yn gyfarwydd â'r meini prawf asesu er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn recordio pob agwedd ar y gofynion asesu. Gall fod angen defnyddio sioeau ongl lydan yn ogystal â sioeau agos yn ddibynnol ar y gweithgaredd sy'n cael ei ffilmio
- Dylai'r recordiadau gael eu gwirio ar ôl yr asesu, a dylid paratoi copïau wrth gefn
- Cadw'r recordiad gan nodi enw'r ganolfan ac enw'r cymhwyster yn glir

Recordio gemau tîm

Dylid defnyddio camera yn ystod gêm i ddilyn yr hyn sy'n digwydd. Ar ôl trafod y mater â'r safonwyr, gallai fod yn briodol dilyn unigolion yn ystod rhywfaint o'r chwarae. Er bod CBAC yn gofyn am gael asesu sefyllfa gêm lawn, mae'n cydnabod hefyd bod anawsterau'n gallu codi o ran ffilmio tystiolaeth ddigonol. Argymhellir felly fod perfformiadau sefyllfaoedd ochrau bach/cyflyredig yn cael eu ffilmio hefyd er mwyn ategu'r dystiolaeth sy'n deillio o gêm lawn.

Recordio nofio mewn pyllau nofio cyhoeddus

Os yw canolfan yn bwriadu defnyddio pwll nofio cyhoeddus, dylai yn gyntaf gysylltu â rheolwyr y pwll nofio i drafod y trefniadau. Os oes bwriad i ffilmio mewn pwll nofio cyhoeddus yna dylid dilyn y gweithdrefnau canlynol:

- Cadw'n gaeth at ganllawiau/polisi y pwll ynglŷn â recordio
- Cael cydsyniad gan rieni/gwarcheidwaid y cyfranogwyr
- Hysbysu defnyddwyr eraill y pwll a chael eu cydsyniad i recordio (efallai y bydd hyn yn digwydd yn rhan o ganllawiau/polisiau'r pwll ei hun)

Cyfrifoldeb y ganolfan yw darparu tystiolaeth ar gyfer pob ymgeisydd; mae angen i'r dystiolaeth hon fod yn dystiolaeth fyw o'r cyfnod safoni ei hun neu wedi'i recordio fel gweithgaredd oddiar y safle. Os yw'n amhosibl felly goresgyn problemau recordio mewn pyllau nofio cyhoeddus, **ni** ddylid ystyried nofio fel gweithgaredd i'w asesu wrth gofrestru ymgeiswyr.

2. Asesu'r rhaglen ffitrwydd bersonol

Rhaid i ymgeiswyr gynllunio rhaglen ffitrwydd bersonol gyda'r nod o ddarparu argymhellion i wella perfformiad yn **un** o'r gweithgareddau ymarferol y cawson nhw eu hasesu ynddyn nhw h.y. y prif weithgaredd. Rhaid i'r rhaglen ffitrwydd bersonol gael ei hasesu'n fewnol gan yr athro gan ddefnyddio'r grid asesu yn Atodiad A.

Amser

Rhaid dyrannu digon o amser i alluogi ymgeiswyr i gwblhau dadansoddiad o'u ffitrwydd a chasglu data cyn cynllunio'r rhaglen. Mae angen isafswm o **dair awr o asesu dan oruchwyliaeth** ar gyfer hunanddadansoddi a chynllunio. Gellir cymryd y tair awr mewn sesiynau yn ôl ewyllys y ganolfan.

Yn dilyn cwblhau'r hunanddadansoddi, dylid caniatáu cyfnod o o leiaf 8 wythnos i ymgeiswyr gwblhau'r rhaglen ymarfer. Rhaid caniatáu digon o amser i ganlyniadau'r rhaglen fod yn amlwg. Yn ystod y cyfnod hwn dylai dysgwyr fonitro eu cynnydd eu hunain.

Ar ôl cwblhau'r rhaglen ymarfer, dylid wedyn cynhyrchu'r gwerthusiad. Mae angen isafswm o **dair awr o asesu dan oruchwyliaeth** ar gyfer y gwerthuso. Gellir cymryd y tair awr mewn sesiynau yn ôl ewyllys y ganolfan.

Arweiniad

Rhaid i athrawon sicrhau bod y data cychwynnol a gesglir yn ddigonol ac yn cael eu cymhwyso at un o'r gweithgareddau ymarferol a asesir. Gall athrawon roi cyngor generig ar gasglu data ond nid dangos sut y gellir gwneud gwelliannau.

Dylai athrawon wirio'n rheolaidd bod ymgeiswyr wedi dilyn y rhaglen ymarfer a gynlluniwyd.

Yn ystod cwblhau'r gwaith gall ymgeiswyr edrych ar nodiadau a wnaed a data a gasglwyd yn ystod y rhaglen. Fodd bynnag **rhaid peidio** â chychu'r rhyngwyd, cyfrifon e-bost na chyfryngau cymdeithasol.

Cydnabyddiaethau

Rhaid cydnabod yn glir cyfeirio at ffynonellau.

Drafftio

Gall arweiniad gael ei roi gan athrawon yn ystod y rhaglen, ond rhaid i hyn gynnwys sylwadau cyffredinol yn unig. Ar ôl i'r gwaith gael ei gyflwyno'n derfynol a'i farcio rhaid i'r gwaith beidio â chael ei ddiwygio ymhellach.

Dilysu

Mae'n bwysig bod pob asesiad di-arholiad yn cael ei fonitro'n drylwyr gan ganolfannau i sicrhau mai gwaith yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith. Pan fydd y gwaith wedi ei gwblhau rhaid peidio â'i ddychwelyd i ymgeiswyr i wneud unrhyw newidiadau. Rhaid i'r gwaith gael ei gadw'n ddiogel yn y ganolfan.

- Mae gofyn bod pob ymgeisydd yn llofnodi datganiad dilysu yn cadarnhau bod y perfformiad ymarferol a'r rhaglen ffitrwydd bersonol yn perthyn iddyn nhw.
- Rhaid i ganolfannau gydlofnodi eu bod nhw wedi cymryd pob cam rhesymol i ddilysu hyn.
- Rhaid defnyddio llofnod athro dilys; wedi'i gydlofnodi gan aelod uwch o'r staff. Ni dderbynnir llofnod wedi'i sganio na llofnod electronig.
- Rhaid i'r dogfennau gael eu llenwi ar gyfer yr holl ymgeiswyr, nid yn unig y rhai a ddewiswyd ar gyfer y sampl sydd i gael eu gweld gan y safonwr allanol.
- Bydd yr holl ddogfennau ar gael ar dudalen hafan addysg gorfforol ar wefan CBAC.

Cymedroli asesu mewnol

Lle mae mwy nag un athro TGAU Addysg Gorfforol mewn canolfan, mae'n hanfodol bod gwaith gan yr holl grwpiau addysgu yn cael ei safoni'n fewnol. Bwriedir i hyn sicrhau bod yr asesu terfynol yn adlewyrchu un safon gytunedig ar gyfer pob athro a phob grŵp addysgu.

Proses Safoni Allanol

- Mae llawlyfr gweinyddu blynyddol yn cael ei ddarparu i'r canolfannau gan CBAC. Yn y llyfryn hwn amlinellir y drefn o gynnal asesiadau yn y canolfannau.
- Bydd CBAC yn anfon cadarnhad o ddyddiad yr ymweliad safoni at yr holl ganolfannau cyn diwedd mis Rhagfyr blwyddyn yr arholiad.
- Cyn yr ymweliad, bydd canolfannau wedi cwblhau'r holl daflenni marcio, fydd ar gael ar wefan CBAC, ac wedi eu hanfon nhw i CBAC erbyn dyddiad sydd i'w gadarnhau yn gynnar ym mis Mawrth.
- Dylai taflenni marcio gynnwys marciau am y perfformiadau ymarferol a'r dadansoddiadau a gwerthusiadau perfformiad.
- Bydd CBAC yn nodi gweithgareddau ac ymgeiswyr sydd i gael eu gweld yn y safoni allanol ac yn rhoi gwybod i ganolfannau cyn yr ymweliad.
- Bydd amserlen yn cael ei hanfon gan y ganolfan i CBAC cyn yr ymweliad.
- Bydd y safonwr allanol yn gweld sampl cynrychiadol o'r gweithgareddau ymarferol a gynigiwyd.
- Dylai'r holl ymgeiswyr fod yn bresennol ddiwrnod y safoni allanol.
- Rhaid i ymgeiswyr gael eu hadnabod yn glir drwy rif.
- Rhaid i'r holl ddadansoddiadau a gwerthusiadau perfformiad fod wedi'u marcio ac ar gael i'r safonwr allanol ddiwrnod yr ymweliad safoni.
- Rhaid i ddogfennau dilysu fod gyda phob dadansoddiad a gwerthusiad perfformiad.
- Yna bydd sampl cynrychiadol o'r dadansoddiad a'r gwerthusiad perfformiad sy'n cwmpasu'r ystod o allu yn cael ei ddewis gan y safonwr allanol ac yn cael eu cymryd i ffwrdd ar gyfer safoni allanol.

Absenoldeb o'r Safoni Allanol

Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd sy'n cael ei ddewis i fod yn rhan o'r sampl fod yn bresennol yn y safoni allanol. Fodd bynnag oherwydd natur addysg gorfforol a chwaraeon mae'n debyg y bydd anafiadau'n digwydd o dro i dro sy'n golygu nad oes modd i ymgeiswyr gymryd rhan weithredol ar ddiwrnod y safoni.

Os bydd anafiadau'n digwydd yn ystod y cwrs sy'n golygu ei bod yn amhosibl cymryd rhan yn y safoni allanol, rhaid dilyn y gweithdrefnau canlynol:

- Rhaid i'r ganolfan hysbysu CBAC cyn gynted â phosibl ynglŷn â natur a maint yr anaf
- Rhaid i'r ganolfan gadarnhau bod rheswm gwirioneddol i egluro pam na fydd yr ymgeisydd yn bresennol o bosibl a chadw tystiolaeth yn y ganolfan
- Yn y rhan fwyaf o achosion bydd CBAC yn gofyn bod ymgeisydd arall â marciau tebyg yn mynychu'r safoni allanol
- Dylai'r ymgeisydd sydd wedi'i anafu fod yn bresennol ar ddiwrnod y safoni allanol os yn bosibl
- Rhaid i waith dadansoddi a gwerthuso'r ymgeisydd sydd wedi'i anafu fod ar gael ar ddiwrnod y safoni allanol er mwyn i'r safonwr allu asesu'r gwaith.

Rhaid i ganolfannau sicrhau bod yr holl gyfarpar a chyfleusterau angenrheidiol ar gael ddiwrnod y safoni allanol. Dylid rhoi gwybod i'r safonwr allanol am unrhyw weithgaredd sydd i gael ei safoni mewn lleoliad i ffwrdd o'r safle.

Bydd pob canolfan yn derbyn adroddiad am y safoni allanol fydd ar gael yn electronig ddiwrnod y canlyniadau TGAU.

4 GWYBODAETH DECHNEGOL

4.1 Cofrestru

Cymhwyster llinol yw hwn y mae'n rhaid cymryd yr holl asesiadau ar ddiwedd y cwrs. Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod mis Mai/Mehefin bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon. Bydd y cyfle asesu cyntaf yn Haf 2018.

Gellir sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Rhaid i ymgeiswyr ailsefyll pob cydran arholiad yn yr un gyfres.

Gellir trosglwyddo marciau asesu di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb. Os bydd ymgeisydd yn ailsefyll cydran Asesu Di-arholiad (yn hytrach na throsglwyddo marc yr Asesiad Di-arholiad blaenorol), yna'r marc newydd fydd yn cyfrif tuag at y radd gyffredinol, hyd yn oed os yw'n is na'r marc o'r ymgais flaenorol.

Os ardystiodd ymgeisydd ar ddau achlysur neu fwy o'r blaen, y marc o'r asesiad di-arholiad mwyaf diweddar sy'n cael ei drosglwyddo, heb ystyried a yw'r marc hwnnw'n uwch neu'n is (oni bai bod y marc yn absennol).

Mae'r cod cofrestru'n cael ei ddangos isod.

Teitl y Cymhwyster	Codau Cofrestru	
	Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Cymraeg
TGAU Addysg Gorfforol CBAC	3550QS	3550CS

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau* yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau TGAU yng Nghymru yn cael eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o A*-G, ac A* yw'r radd uchaf. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

ATODIAD A

Gridiau asesu di-arholiad

Mae Uned 2 yn asesu AA4 yn ei gyfanrwydd a chwarter o'r marciau sydd wedi'u dyrannu i AA2. Bydd yn cael ei marcio allan o 100 ac mae'n werth 50% o'r cymhwyster.

Bydd dysgwyr yn cael eu hasesu yn perfformio mewn **tri** gweithgaredd gwahanol, o leiaf **un** gamp ar gyfer unigolyn ac **un** gamp ar gyfer tîm o'r rhestr gymeradwy o weithgareddau yn Atodiad B. Bydd un o'r gweithgareddau yn brif weithgaredd fydd yn cynnwys rhaglen ffitrwydd bersonol.

Lluniwyd gridiau asesu wedi'u bandio fel bod gan bob band o fewn adran ddisgrifydd perthnasol. Mae'r disgrifydd yn darparu disgrifiad o lefel y perfformiad ar gyfer y band hwnnw. Mae pob band yn cwmpasu amrediad penodol o farciau.

Cyn marcio, dylai athrawon yn gyntaf wyllo'r perfformiad/darllen y gwaith i nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu. Yna gellir cymhwyso'r cynllun marcio.

Gan ddechrau yn y band isaf, dylai athrawon edrych ar y rhan berthnasol o berfformiad/gwaith y dysgwr a gwirio a yw'n cyd-fynd â'r disgrifydd ar gyfer y band marciau hwnnw. Dylai athrawon edrych ar y disgrifydd ar gyfer y band hwnnw a gweld a yw'n cyd-fynd â'r nodweddion a ddangosir ym mherfformiad/gwaith y dysgwr ar gyfer y rhan honno. Os bodlonir y disgrifydd yn y band isaf, dylai athrawon symud i fyny i'r band nesaf a mynd trwy'r broses hon eto ar gyfer pob band nes bod y disgrifydd yn cyd-fynd â'r perfformiad/gwaith.

Os yw'r perfformiad/gwaith yn ymdrin ag agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid mabwysiadu dull 'ffit orau' i benderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio perfformiad/gwaith y dysgwr i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft, os yw gwaith ym mand 2 yn bennaf ond â maint cyfyngedig o gynnwys band 3, byddai'r ateb yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a roddir yn agos at ben uchaf band 2 o ganlyniad i'r cynnwys band 3. Ni ddylai athrawon geisio marcio dysgwyr i lawr o ganlyniad i adael mân bethau allan mewn meysydd llai pwysig o'u gwaith na gwallau a wneir yn ystod perfformiad ymarferol.

Ar ôl penderfynu ar y band, gall athrawon wedyn roi marc. Atgoffir athrawon o'r angen i edrych eto ar y perfformiad/gwaith wrth iddyn nhw gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc a roddwyd yn briodol i'r perfformiad/gwaith.

Lle nad yw gwaith yn deilwng o gredyd, hynny yw nid yw'n cynnwys dim o bwys neu mae wedi cael ei adael allan, ni ddylid rhoi unrhyw farciau.

Gweithgareddau ar gyfer tîm

Dylai dysgwyr arddangos cymhwyso sgiliau/technegau/strategaethau sy'n briodol i'r safle/gweithgaredd mewn sefyllfaoedd heriol h.y. mewn gemau ag ochrau llai ac ochrau llawn mewn cyd-destunau cystadleuol.

Band	Meini Prawf Asesu: Campau/gweithgareddau ar gyfer tîm (AA4)
Band 4	22-28 marc Cymhwyso sgiliau a thechnegau priodol ar gyfer y safle/gweithgaredd. Mae cysondeb, manwl gywirdeb a llithrigrwydd i'w gweld. Cymhwyso'r rôl unigol yn gyson ac yn effeithiol ac amlygu cyfraniad sylweddol i gyflawni'r canlyniad cyfunol. Gweithredu rhagorol o strategaethau a thactegau a/neu syniadau cyfansoddiadol tîm priodol. Dangos ymwybyddiaeth o, ac ymateb i, weithredoedd chwaraewyr eraill. Gwneud penderfyniadau rhagorol am addasu perfformiad tra dan bwysau. Defnyddio'r holl nodweddion corfforol priodol ar gyfer y gweithgaredd. Dangos rheolaeth seicolegol ragorol mewn sefyllfaoedd dan bwysau. Cyfathrebu'n effeithiol â chwaraewyr eraill i fod o fudd i berfformiad y tîm.
Band 3	15-21 marc Cymhwyso sgiliau a thechnegau priodol ar gyfer y safle/gweithgaredd. Mae manwl gywirdeb a llithrigrwydd i'w gweld ond â diffyg cysondeb. Cymhwyso'r rôl unigol, amlygu cyfraniad i gyflawni'r canlyniad cyfunol. Gweithredu da o strategaethau a thactegau a/neu syniadau cyfansoddiadol tîm priodol. Dangos ymwybyddiaeth o, ac ymateb i, weithredoedd chwaraewyr eraill. Gwneud penderfyniadau da am addasu perfformiad tra dan bwysau. Meddu ar nodweddion corfforol priodol ar gyfer y gweithgaredd. Mae gweithredu'r nodweddion i'w weld. Dangos rheolaeth seicolegol dda mewn sefyllfaoedd dan bwysau ond efallai bydd llithriadau o bryd i'w gilydd. Cyfathrebu â chwaraewyr i fod yn eithaf buddiol i berfformiad y tîm.
Band 2	8-14 marc Cymhwyso sgiliau a thechnegau ar gyfer y safle/gweithgaredd. Mae diffyg manwl gywirdeb, llithrigrwydd a chysondeb. Mae'r rôl unigol yn gwneud cyfraniad cyfyngedig i gyflawni'r canlyniad cyfunol. Gweithredu cyfyngedig o strategaethau a thactegau a/neu syniadau cyfansoddiadol tîm priodol. Fawr ddim ymwybyddiaeth o, nac ymateb i, weithredoedd chwaraewyr eraill. Mae penderfynu cyfyngedig i'w weld ynghylch addasu perfformiad tra dan bwysau. Mae nodweddion corfforol cyfyngedig ar gyfer y gweithgaredd i'w gweld a does fawr ddim cymhwyso o'r nodweddion hyn. Gweithredu rheolaeth seicolegol gyfyngedig mewn sefyllfaoedd dan bwysau. Cyfathrebu cyfyngedig â chwaraewyr eraill, fawr ddim budd i berfformiad y tîm.
Band 1	1-7 marc Cymhwyso sylfaenol o sgiliau a thechnegau ar gyfer y safle/gweithgaredd. Mae diffyg manwl gywirdeb, llithrigrwydd a chysondeb. Dyd y'r rôl unigol ddim yn gwneud fawr ddim neu ddim cyfraniad i gyflawni'r canlyniad cyfunol. Cymhwyso sylfaenol o strategaethau a thactegau a/neu syniadau cyfansoddiadol tîm heb ddim ymwybyddiaeth o, nac ymateb i, weithredoedd chwaraewyr eraill. Mae penderfynu sylfaenol i'w weld ynghylch addasu perfformiad tra dan bwysau. Mae nodweddion corfforol sylfaenol ar gyfer y gweithgaredd i'w gweld a does fawr ddim cymhwyso o'r nodweddion hyn. Gweithredu rheolaeth seicolegol yn sylfaenol. Cyfathrebu sylfaenol â chwaraewyr eraill, budd sylfaenol i berfformiad y tîm.
0	0 marc Nid yw'r perfformiad yn deilwng o farc.

Gweithgareddau ar gyfer unigolyn

Dylai dysgwyr arddangos cymhwyso sgiliau/technegau/strategaethau sy'n briodol i'r gweithgaredd mewn sefyllfaoedd heriol dan bwysau.

Band	Meini Prawf Asesu: Gweithgareddau/campau ar gyfer unigolyn (AA4)
Band 4	22-28 marc Cymhwyso sgiliau a thechnegau priodol ar gyfer y gweithgaredd. Mae cysondeb, manwl gywirdeb a llithrigrwydd i'w gweld. Gweithredu rhagorol o strategaethau a thactegau a/neu syniadau cyfansoddiadol priodol. Gwneud penderfyniadau rhagorol am addasu perfformiad tra dan bwysau. Defnyddio'r holl nodweddion corfforol priodol ar gyfer y gweithgaredd. Dangos rheolaeth seicolegol ragorol mewn sefyllfaoedd dan bwysau.
Band 3	15-21 marc Cymhwyso sgiliau a thechnegau priodol ar gyfer y gweithgaredd. Mae manwl gywirdeb a llithrigrwydd i'w gweld ond â diffyg cysondeb. Gweithredu da o strategaethau a thactegau a/neu syniadau cyfansoddiadol priodol. Gwneud penderfyniadau da am addasu perfformiad tra dan bwysau. Meddu ar nodweddion corfforol priodol ar gyfer y gweithgaredd, mae gweithredu'r nodweddion i'w weld. Dangos rheolaeth seicolegol dda mewn sefyllfaoedd dan bwysau ond efallai bydd llithriadau o bryd i'w gilydd.
Band 2	8-14 marc Cymhwyso sgiliau a thechnegau ar gyfer y gweithgaredd â manwl gywirdeb, llithrigrwydd a chysondeb cyfyngedig. Gweithredu cyfyngedig o strategaethau a thactegau a/neu syniadau cyfansoddiadol priodol. Mae penderfynu cyfyngedig i'w weld ynghylch addasu perfformiad tra dan bwysau. Mae nodweddion corfforol cyfyngedig ar gyfer y gweithgaredd i'w gweld a gweithredu cyfyngedig o'r nodweddion hyn. Dangos rheolaeth seicolegol gyfyngedig mewn sefyllfaoedd dan bwysau.
Band 1	1-7 marc Cymhwyso sylfaenol o sgiliau a thechnegau ar gyfer y gweithgaredd. Mae diffyg manwl gywirdeb, llithrigrwydd a chysondeb. Cymhwyso sylfaenol o strategaethau a thactegau a/neu syniadau cyfansoddiadol priodol. Mae penderfynu sylfaenol i'w weld ynghylch addasu perfformiad tra dan bwysau. Mae nodweddion corfforol sylfaenol ar gyfer y gweithgaredd i'w gweld a does fawr ddim cymhwyso o'r nodweddion hyn. Gweithredu rheolaeth seicolegol yn sylfaenol mewn sefyllfaoedd dan bwysau.
0	0 marc .

Prif weithgareddau

Rhaid i ddysgwyr gael eu hasesu mewn **un** prif weithgaredd. Gall hwn fod naill ai'n weithgaredd ar gyfer tîm neu'n weithgaredd ar gyfer unigolyn.

Ar gyfer y prif weithgaredd, yn ogystal ag asesu perfformiad ymarferol, bydd dysgwyr yn cael eu hasesu drwy eu rhaglen ffitrwydd bersonol.

Bydd y rhaglen ffitrwydd bersonol wedi'i chynllunio i helpu i wella ffitrwydd a pherfformiad yn y prif weithgaredd dewisol.

Meini prawf asesu prif weithgareddau ar gyfer tîm

